



Theatr
Genedlaethol
Cymru

Ie Ie Ie

PECYN ADDYSG

- Tudalen 3 CYFLWYNIAD
- Tudalen 5 TÎM CREADIGOL
- Tudalen 6 NODYN GAN Y CYFARWYDDYDD A'R ACTOR
- Tudalen 9 CYNLLUN
- Tudalen 11 *IE IE IE* A'R FFURF GAIR AM AIR
- Tudalen 13 *IE IE IE* A'R CYSYLLTIADAU I'R CWRICWLWM

CYFLWYNIAD

le le le

Mae dau berson ifanc yn ffansio'i gilydd. Mae 'na ddau arall sy'n ffansio'i gilydd 'fyd.

Mae'r ddau bâr yn dilyn llwybrau eithaf tebyg wrth i'w perthynas ddatblygu.

Tan i brofiad un fynd i gyfeiriad hollol wahanol.

Mae **le le le** yn addasiad Cymraeg o Yes Yes Yes; sioe fyw arobryn gan y gwneuthurwyr theatr o Aotearoa/Seland Newydd, Karin McCracken ac Eleanor Bishop. Gyda Juliette Manon yn cyfarwyddo, mae'r sioe yn cynnwys cyfweiliadau fideo gonest gyda phobl ifanc Cymru, perfformiad unigol bachog gan Eleri Morgan, a chyfle i'r gynulleidfa gyfrannu i'r sgwrs os yn dymuno.

Yng nghyfnod #metoo a #timesup, dyma ddarn o theatr pwysig am brofiadau bywyd go iawn pobl ifanc heddiw sy'n codi cwestiynau hanfodol am berthnasau iach, chwant a chaniatâd.

Gyda'r bwriad o gyflwyno darn sydd wedi'i greu gan bobl ifanc i bobl ifanc, ry' ni wedi cyd-greu rhannau o'r sioe gyda phobl ifanc drwy ymweld ag ysgolion a cholegau led led Cymru. Y bwriad yw annog sgwrs sy'n creu newid positif ym mywydau ein cenedlaethau iau.

Canmolwyd y sioe hon i'r cymylau pan berfformiwyd hi yn wreiddiol yn Aotearoa / Seland Newydd ac yng Ngwyl "Fringe" Caeredin a chael adborth positif gan ddisgyblion ysgol, myfyrwyr, athrawon ac oedolion fel ei gilydd. Dywedodd Lyn Gardener, The Guardian (UK), "It would be good to see this New Zealand production rolled out in classrooms across the globe".

Mae **le le le** yn addasiad Cymraeg o Yes Yes Yes, sef sioe fyw gan yr artistiaid Karin McCracken ac Eleanor Bishop o Aotearoa / Seland Newydd. Roedd Steffan Donnelly, Cyfarwyddwr Artistig y cwmni, wedi'i ysbrydoli i ddatblygu'r addasiad Cymraeg ar ôl gweld perfformiad o'r sioe wreiddiol yn ystod Gŵyl CINARS yn Canada yn 2022. Dywedodd Steffan:

"Roedd gweld Yes Yes Yes yn brofiad anhygoel - mae Karin ac Eleanor wedi creu sioe agos-atoch sy'n trafod pynciau pwysig mewn ffordd perthnasol ac anffurfiol. Ro'n i'n teimlo'n sicr petawn wedi gweld y sioe hon yn fy ardegau y byddai wedi cael effaith mawr ar fy mywyd ac, o'r foment honno, roeddwn yn benderfynol o greu addasiad Cymraeg o'r cynhyrchiad ar gyfer - ac ar y cyd â - phobl ifanc Cymru. Dwi'n hynod falch o'r tîm talentog ry'n ni wedi ymgynnull i lwyfannu'r cynhyrchiad unigryw hwn ac, wrth gwrs, mae'n wych gweld y gwaith cyfranogi sydd wedi bod yn digwydd ledled Cymru dros y misoedd diwethaf."

YMGYNGHORWR



IECHYD A LLES RHYWIOL – YMLADD AM FYWYDAU IACH

Wrth ddatblygu'r cynhyrchiad a gweithio gyda'r cyfranogwyr ifanc ar draws y wlad, mae'r cwmni wedi derbyn hyfforddiant a chefnogaeth ymgynghorol gan y mudiad Brook Cymru, elusen iechyd rhywiol i bobl ifanc. Gallwch ddysgu mwy am waith Brook ar y wefan, **brook.org.uk**.

Lle i fynd am gefnogaeth:

DERBYN CYNGOR A CHEFNOGAETH

Siaradwch gydag oedolyn rydych chi'n ymddiried ynddo
Dweud wrth eich meddyg teulu neu nyrs ysgol

 **brook**



brook.org.uk

 **ChildLine**
0800 1111



childline.org.uk



0800 1111

 **meic**



meiccymru.org



080880 23456
Tecst meic
84001

 **RAPE
CRISIS**
England & Wales



rapecrisis.org.uk



0808 802 9999

TÎM CREADIGOL

JULIETTE MANON

Mae Juliette yn gyfarwyddydd cwiâr anneauidd Cymraeg ac yn artist amlddisgyblaethol o Ogledd Cymru. Maen nhw wrthi'n cwblhau eu cyfnod preswyl yn Theatr Clwyd fel Cyfarwyddydd dan Hyfforddiant Carne (22-24). Cyn hynny, astudiodd yng Ngholeg Brenhinol Cerddoriaeth y Gogledd a Phrifysgol Manceinion. Maen nhw'n creu gwaith gwleidyddol ar gyfer ac ar y cyd â phobl ifanc, ac sy'n rhoi platfform i leisiau a straeon sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar lwyfan a sgrin.

Credydau cyfarwyddo yn cynnwys:

UpRoar (Theatr y Sherman), *Dim Byd*
'Tha Chdi (Cwmni Ifanc Frân Wen).

Credydau fel cyfarwyddydd cyswllt a chyfarwyddydd staff yn cynnwys: *The Great Gatsby* (Theatr Clwyd/The Guild of Misrule), *Truth or Dare*, *The In-Between* (NYTW).

Credydau fel cyfarwyddydd cynorthwyol yn cynnwys: *Sleeping Beauty*, *Robin Hood* (Rock 'n Roll Panto), *Famous Five*, *Celebrated Virgins*, *Y Teimlad* (Theatr Clwyd & TCIC); *Anfamol* (Theatr Genedlaethol Cymru) ac *Anthem* (Canolfan Mileniwm Cymru fel cyfarwyddydd cerdd cynorthwyol a cyfarwyddydd cynorthwyol).

LILY BEAU

Mae Lily Beau yn gantores a chyfansoddwr 22 mlwydd oed, sydd wedi gweithio ym maes cerddoriaeth, cyhoeddi cerddoriaeth ac fel A&R i label recordio neu gwmni cyhoeddi cerddoriaeth. Mae hi wedi camu i ffwrdd o ochr gorfforaethol cerddoriaeth er mwyn dilyn awch ysgrifennu creadigol a chreu cerddoriaeth yn llawn amser. Mae ei diddordeb gyda'i hiechyd meddwl wedi tanio ei hangerdd i ddod o hyd i ffyrdd creadigol i leisio ac ymchwilio ei profiad bywyd, gan archwilio ble gall y gair ysgrifenedig roi eglurder ac ysbrydoliaeth mewn cyfnodau heriol.

ELERI MORGAN

Mae Eleri yn actor, comediwraig, ac awdur o ganolbarth Cymru. Mae hi wedi perfformio gigs ledled y DU, gan gynnwys Gŵyl Ymylol Caeredin, Gŵyl Gomedï Machynlleth a Gŵyl Gomedï Aberystwyth. Chwaraeodd hi'r cymeriad "Gwen" yn y rhaglen deledu *Tourist Trap* (BBC One Wales) ac fe gyrhaeddodd rownd gynderfynol *Funny Women* a *Digrifwr Newydd y Flwyddyn y BBC 2021*. Mae ei chredydau ysgrifennu a pherfformio proffesiynol yn cynnwys: *The News Quiz & The Now Shows* (BBC Radio 4); *Mock The Week* (BBC One); *Backchat* (Dave Channel), ac yn fwyaf diweddar *Have I Got News For You* (BBC One). Eleni, enillodd *Bwrsari Ysgrifennu Comedi* y BBC.

NODYN GAN Y CYFARWYDDYDD GWREIDDIOL, KARIN

Yn ystod y bum mlynedd ddiwethaf, rydw i wedi bod yn gweithio ar sut i greu theatr gyda phynciau heriol a phethau sy'n gwneud i ni deimlo'n anghyfforddus, megis rhyw, chwant a chydysniad. Rwy'n teimlo'n gryf bod y theatr yn ffurf arbennig, lle mae pobl yn dod at ei gilydd i wyllo ac i gymryd rhan, felly rhaid i ni bob amser geisio dal pŵer unigryw y theatr a gwneud pethau na all dim ond y theatr ei wneud.

Mae *le le le* yn dod â nifer o bethau sy'n diddori fi at ei gilydd.

- 1** Creu proses o gydweithio gyda'r bobl mae'r sioe yn ceisio cyfathrebu â nhw.
- 2** Ffynonellau dogfennol – cyfweiliadau, straeon bywyd go iawn, actorion yn perfformio fel nhw eu hunain. I mi, does dim byd mwy pwerus na rhywun yn datgan eu gwirionedd eu hunain.
- 3** Y gred bod newid yn deillio o'r ffaith ein bod ni'n dangos empathi tuag at straeon ein gilydd. Mae theatr yn dda iawn am greu empathi oherwydd bod 'na berson go iawn yn sefyll o'ch blaen.
- 4** Dyma'r pŵer sydd gan y theatr dros y papur newydd, neu hyd yn oed ffilm. Pan fyddwn yn deall straeon pobl eraill – ar lefel emosiynol, nid dim ond ar lefel ddeallusol – rwy'n credu y gallwn ddechrau newid ein hunain.

NODYN GAN Y CYFARWYDDYDD, JULIETTE MANON

Nath neb byth siarad am cydsyniad gyda fi.

Mae gen i ryw gof bras o gyflwyniad powerpoint yn y chweched ddsbarth a ddaeth i ben gyda'r bechgyn yn gwneud jôcs amhriodol a sawl merch yn gadael yr ystafell mewn dagrau. Rwyf wedi siarad â sawl person sydd â phrofiadau ac enghreifftiau brawychus tebyg o orfod llywio cydsyniad a'u phrofiadau cyntaf i gyd ar eu pennau eu hunain. Wrth i mi wyllo cyfweiliadau fideo gan bobl ifanc ledled Cymru yn siarad am eu profiadau nhw o cysyniad dwi'n teimlo fy mod yn galaru unwaith eto am effeithiau ddiffyg sgwrs ynghylch caniatâd yn fy mywyd i, a rhai nhw hefyd. Y tro hwn, fodd bynnag, rwy'n teimlo'n obeithiol ein bod ni yn gwneud rhywbeth i newid y (diffyg) naratif.

Y mwya dwi'n siarad am '*le le le*' gyda phobl y mwyaf y mae'n taro fi pa mor angenrheidiol ydi o fel prosiect. Mae sôn am y sioe a'i phynciau wedi agor y drws i gynifer o sgysiau na fyddwn i erioed wedi'u cael fel arall. "Nath hwnna ddigwydd i fi fyd."..."Doeddwn i ddim wir yn gwybod beth oedd cydsyniad"..."Roedd rhaid i fi ddysgu trwy brofiad". Gall gwneud sioe am gydsyniad deimlo fel rhywbeth radical pan mai dyma'r ymadroddion cyffredin da chi'n eu clywed unrhyw dro i chi godi'r pwnc.

Dwi'n teimlo'n lwcus iawn i fod yn gwneud y sioe yma gyda phobl ifanc ledled Cymru. Er gwaethaf pa mor drwm a llethol y gall y pwnc deimlo, mae nhw gyd wedi bod yn agored ac wedi dangos aeddfedrwydd a hyder wrth siarad am eu profiadau. Drwy rannu a thrwy gynnal sgwrs agored gyda'n cynulleidfaoedd, dwi'n gobeithio y gallwn wneud rhywbeth i newid y tawelwch o gwmpas cydsyniad yn ein cymdeithas. Dwi'n rili gobeithio y bydd teuluoedd, rhieni a gwarcheidwaid yn dod i wyllo ac yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i siarad am gydsyniad a pherthynas iach â'u plant a'r bobl ifanc o'u cwmpas. Mae'n teimlo fel ffordd empathig a chefnogol o agor y drws i'r trafodaethau pwysig hyn. Mae'n hen bryd i ni gyd gymryd cyfrifoldeb drwy wrando ar ein pobl ifanc a chynnal lle ar gyfer y sgysiau pwysig yma. Mae'n rhaid i rywbeth newid. Gobeithio bod '*le le le*' yn rhan o'r newid yma.

NODYN GAN YR ACTOR, ELERI

Mae perfformio **le le le** yn golygu bod raid i mi fod yn actor ac yn hwylusydd. Rydw i 'gyda'r' gynulleidfa – does dim pedwaredd wal. Rydw i weithiau'n gofyn iddyn nhw feddwl am bethau sy'n peri ofn, neu'n gofyn iddyn nhw wneud rhywbeth fel dod ar y llwyfan gyda mi. Gall y rhain deimlo fel pethau mawr, felly mae angen iddyn nhw ymddiried yndda i. Mae'n anodd, oherwydd mae'r perfformiad wastad yn bodoli ar ddwy lefel – os ydw i'n cyflwyno monolog sy'n golygu bod fi mewn cyfnod bywyd arall, rydw i'n dal i gadw llygad ar y gynulleidfa, yn synhwyro sut mae pethau'n mynd, a dadansoddi eu hymatebion fel mod i'n gallu addasu sut i siarad yn uniongyrchol gyda nhw yn yr act nesaf. Mae rhoi perfformiad da o **le le le** yn gofyn am gyfuniad o empathi, bod yn slic, hiwmor, haelioni a bod yn agored. Yr her fwyaf, i mi, yw'r lefel o fod yn agored sy'n angenrheidiol, yn enwedig gan fy mod yn chwarae 'fi fy hun'. Mae **le le le** yn gofyn am i mi reoli'r stafell drwy'r adeg, ond hefyd i fod y person agored bob amser, a dangos bo fi yn fregus hefyd.

Rydw i yn edrych ymlaen at berfformio'r gwaith hwn oherwydd mod i'n cael y cyfle unigryw i wneud cysylltiad gyda nifer o bobl o fewn cyfnod byr o amser. Rydw i hefyd yn cael bod yn agos at y cymeriad yn y stori sy'n dioddef trais rhywiol. Maen nhw'n real iawn, ac yn annwyl iawn i mi. Mae'r sgwrs olaf rhwng y ddau yn teimlo'n ddwys – mewn gwirionedd, dyna'r unig adeg yn y sioe pan rwy'n wirioneddol deimlo y gallwn i golli rheolaeth o'r ystafell, a hynny oherwydd mod i'n gwneud fy ngorau glas i beidio â chrio. Mae hon yn sioe anhygoel o arbennig ac yn sioe heriol, werth chweil i'w pherfformio. Bob tro rydw i'n perfformio ynddi, rydw i'n dysgu rhywbeth amdanaf i fy hun a phobl eraill.

Rwy'n gwneud stand yp, felly mae mae adrodd am atgofion a meddyliau personol, agos-atoch, i gynulleidfa yn deimlad naturiol i fi. Rwy'n dwlu ar yr *interaction*.

CYNLLUN

SET A GOFOD

Mae set *le le le* yn hynod syml, ac felly yn haws i fynd â hi ar daith. Mae gofod y llwyfan wedi'i osod gyda thri microffon a sgrin daflunio. Mae'r microffonau'n creu triongl â'i ben i lawr yn y gofod, lle mae'r prif gymeriad yn creu ei stori personol ei hun. Pan mae hi'n torri ar draws stori arall, mae hi'n symud allan o'r gofod hwn ac yn nes at y gynulleidfa er mwyn ffocysu a'u dal nhw, neu at y microffonau lle mae'r stori'n mynd rhagddi 'y tu allan' l'w byd personol. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i gael amlinelliad syml ac effeithiol rhwng y straeon.

TAFLUNIO: PENAWDAU, PÔL BYW A CHYFWELIADAU

Mae penawdau yn cael eu taflunio i ddangos darn o stori i'r gynulleidfa i'w helpu i lywio rhwng y tri gwahanol ddull o adrodd stori:

- dweud stori a rhoi sylwebaeth
- annerch uniongyrchol a hwyluso
- sgysiau: rhwng yr holl gymeriadau eraill yn y stori

MICROFFONAU, CERDDORIAETH AC EFFEITHIAU SAIN

Defnyddir microffonau yn ystod y rhannau o'r perfformiad lle ceir cyfweliadau er mwyn chwyddo lleisiau'r cyfranwyr a hefyd i alluogi'r gynulleidfa i wahaniaethu rhwng y llinellau stori.

Defnyddir cerddoriaeth ac effeithiau sain drwy gydol y perfformiad:

- Mae cerddoriaeth yn atalnodi momentau o ardrawiad o fewn y sgrïpt. Mae tôn y gân yn gweddu i dôn y foment yn y ddrama. Mae hyn yn galluogi'r gynulleidfa i dderbyn hiwmor, pryder, teimlad/awyrgylch neu dristwch y foment.
- Mae amrywiaeth o seiniau'n cael eu defnyddio mewn cysylltiad â'r penawdau wedi eu taflunio, i helpu'r gynulleidfa wahaniaethu o'r stori.

GOLEUO:

Lliwiau:

Rydyn ni'n defnyddio palet o liwiau gwyn cynnes pan yn cyflwyno'i monologau, gan newid yn gynnil iawn i liwiau gwyn oerach pan mae'r sgysiau'n cael eu darllen yn uchel. Rydyn ni'n aml yn defnyddio cefndir glas pan mae'r gynulleidfa'n tecstio, ac weithiau pan mae'r cyfweiliadau'n chwarae, gan ei fod yn lliw sy'n tawelu.

Goleuo'r gynulleidfa:

Rydyn ni'n dechrau'r sioe gyda goleuadau'r tŷ ymlaen. Pan yn cyflwyno sgwrs groeso a diogelwch, rydyn ni'n awyddus bod Eleri yn gweld y gynulleidfa er mwyn iddi greu cysylltiad da gyda nhw; rydyn ni hefyd yn ceisio paratoi'r gynulleidfa ar gyfer y trosglwyddo i ddechrau'r sioe. Dydyn ni ddim am i hynny fod yn ddirybudd. Felly, pan mae Eleri yn gofyn 'lawn, yda chi'n barod inni cychwyn y sioe...Amdani', dyna pryd rydyn ni'n tywyllu goleuadau'r tŷ. Ry' ni'n eu cynnau eto pan fydd Eleri yn gofyn am wirfoddolwyr i ddarllen, a hefyd pan mae pobl yn tecstio. Rydyn ni am i bobl wybod eu bod yn gallu gadael yn ystod y tecstio, os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

GWISGOEDD:

Mae Eleri yn gwisgo jîns, sneakers a chrys-t. Roedden ni'n awyddus iddi edrych fel hi ei hun. Yn anffurfiol ond nid yn ffwrdd-â-hi - wedi'r cyfan, mae hi'n gwneud sioe! Ac fel petai hi efallai wedi gwisgo'r dillad yma i fynd i'r parti mae hi'n ei ddisgrifio yn y sioe. Mae'n bwysig ei bod hi'n gyfforddus ac yn teimlo'n dda yn ei dillad.

IE IE IE, A FFURF Y THEATR GAIR AM AIR

“Verbatim means word for word. Traditionally verbatim is used in the theatre to highlight an event, comment on issues of a political, social or economic nature and using real people’s words to express this.”

– Kate McGill (Ymarferydd gair am air, dramodydd, cyfarwyddyd ac actor)

Wrth edrych ar steil a ffurf *le le le*, mae’r gynulleidfa’n teimlo ar unwaith eu bod mewn sgwrs gyda’r actor, Eleri, yn hytrach na bod rhywun yn chwarae iddyn nhw yn ystyr traddodiadol y berthynas rhwng yr actor a’r gynulleidfa. Mae’n amlwg bod stori Eleri’n deillio o’i bywyd ei hun drwy ei chyflwyniad, ac felly hefyd gyfweiliadau’r myfyrwyr oedd yn cymryd rhan. Rhaid i’r gynulleidfa, felly, gymryd yn ganiataol bod gweddill y testun hefyd yn dod o safbwynt realiti.

Mae theatr gair am air yn dod yn offeryn cyffredin ar gyfer gwneuthurwyr theatr, am sawl rheswm. Gall fod yn archwiliad: actorion, dramodwyr a chyfarwyddwyr yn gofyn – beth all theatr ei ychwanegu at y drafodaeth hon? Mae’n offeryn i ddatgloi ‘stori gyfan’ person, lle gall y gynulleidfa weld bod y cyffredin yn anghyffredin. Ac yn olaf, caiff ei ddefnyddio i greu rhywbeth yn y gofod rhwng beth sy’n digwydd yn y byd a beth mae pobl yn ei feddwl, gan alluogi’r gynulleidfa i gymryd rhan mewn sgwrs, yn hytrach nag atal eu hanghrediniaeth. Yn y modd yma, mae *le le le* yn ffitio i mewn i’r maes Gair am Air.

EGLURO GAIR AM AIR YN IE IE IE

Gallech ddefnyddio’r elfennau hyn yn eich dosbarth Drama i’ch helpu i greu eich gwaith dyfeisiedig eich hun, o gwmpas rhyw syniad rydych chi’n teimlo’n angerddol yn ei gylch.

Gosod disgwyliadau’r gynulleidfa, a diffyg pedwaredd wal

O ddechrau’r perfformiad, mae Eleri yn chwalu’r rhwystr y gall y bedwaredd wal ei greu. Cyn i’r sioe ddechrau bydd hi’n symud drwy’r gynulleidfa, gan sgwrsio’n gynnes ac agos-atoch gyda’r myfyrwyr. Mae hyn yn ei galluogi i adeiladu’r cysylltiadau rhwng y gynulleidfa a’r actor, gan greu gofod diogel i drafod y cynnwys anodd a rhyngweithiad y gynulleidfa sydd i ddilyn.

“Mae’r cynnwys yn arddweud y penderfyniadau creadigol rydyn ni wedi eu gwneud o gwmpas ein sioe i unigolion a rhyngweithiad y gynulleidfa. Mae angen i ni weithio allan beth mae pobl eraill yn ei feddwl, ac mae rhyngweithiad y gynulleidfa’n caniatáu i ni gynnwys yr awyrgylch hwnnw, felly mae pob sioe yn wahanol, mae’r stori’n cymryd ei siâp ei hun, ac mae gwahanol bersectifau’n cael caniatâd i eistedd yn y gofod perfformio.”

Dweud stori a rhoi sylwebaeth

Mae Eleri yn adrodd ei stori yn y trydydd person, yn traethu ac yn actio atgof. Mae hi hefyd yn torri ar draws gyda meddyliau personol oedd yn digwydd yn y foment, neu'n rhoi sylwebaeth ar sut mae hi'n teimlo ynghylch y gweithredoedd a'r penderfyniadau a wnaed ganddi hi yn y gorffennol. Mae Eleri yn gwneud hyn mewn ffordd sy'n creu deialog rhyngddi hi a'r gynulleidfa, gan eu tynnu i mewn i'r naratif – yn eu rhoi yn y sefyllfa gyda hi a'u pryfocio i holi beth fydden nhw'n ei wneud.

Ar y llaw arall, mae stori Ri'n gyfarchiad uniongyrchol i'r gynulleidfa, yn adrodd ffeithiau'r sefyllfa mewn llais empathetig er mwyn rhoi'r difrifoldeb angenrheidiol i'r sefyllfa. Yna caiff cyfraniad y gynulleidfa ei blethu i mewn i'r adran hon o'r traethiad, gan ganiatáu deialog go iawn gyda'r gynulleidfa a rhoi cyfle i'r cynnwys dreiddio i mewn i'r ymwybyddiaeth gyfunol. Gall hyn fod yn anghyfforddus iawn i'r perfformiwr, oherwydd eu bod yn agored i'r anhysbys.

Dwysáu'r hyn sy'n gyffredin

Hud y theatr gair am air yw bod ymarferwyr yn defnyddio straeon pobl go iawn, iaith bob dydd (yr um's a'r ah's, a'r seibiau i feddwl) ac iaith 'normal' y corff, sy'n troi'n farddonol o'u rhoi ar y llwyfan. Mae'r stori yn adrodd straeon sy'n gyffredin i ni gyd, a chyfuniad o feddyliau a syniadau pobl ifanc fel dyfais i adeiladu eu naratif. Mae'r munudau cyffredin ym mywyd Eleri – unwaith y byddwch chi'n ychwanegu'r dweud stori, y sylwebaeth, y goleuo sy'n creu awyrgylch, a'r gynulleidfa – yn dwysáu, a daw'r sefyllfa'n fwy dwys.

Dilysrwydd

Mae theatr gair am air yn gofyn am ddilysrwydd er mwyn ennyn ymateb a chysylltiad â'r gynulleidfa. Dyna pam ei bod yn bwysig cadw'r holl ddarnau anniben o'r sgysiau a'r cyfweiliadau sy'n llywio'r perfformiad – yr um's a'r ah's, a'r seibiau i feddwl. Mae'r rhain yn galluogi'r gynulleidfa i gredu bod y stori o'u blaenau'n un wir, ac yn teimlo ychydig yn fwy hyblyg na sgrïpt draddodiadol. Mae gan y perfformiwr ddyletswydd i'r bobl maen nhw'n eu cynrychioli i'w gael yn iawn, ond gall hyn fod yn ddistylliad neu ddehongliad o sgwrs ehangach, fel sy'n cael ei wneud yn *le le le*.

Adnoddau Gair am Air y National Theatre ar gyfer eu defnyddio yn y dosbarth:

Cyflwyniad i'r dull Gair am Air:

<https://www.youtube.com/watch?v=ui3k1wT2yeM>

Moeseg Theatr Gair am Air:

https://www.youtube.com/watch?v=39JSv-n_W5U

IE IE IE, A'R CYSYLLTIADAU I'R CWRICWLWM CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

Mae natur ddynamig y celfyddydau mynegiannol yn gallu denu, ysgogi ac annog dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau creadigol, artistig a pherfformio hyd eithaf eu gallu.

- 1 Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth artistig, ac mae'n galluogi dysgwyr i fod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.
- 2 Mae ymateb ac adlewyrchu – fel artist ac fel cynulleidfa – yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.
- 3 Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, ac yn tynnu ar y synhwyr, yr ysbrydoliaeth a'r dychymyg.

ADOLYGU AR GYFER DRAMA

Nodyn: Wrth i chi ateb y cwestiynau isod, bydd angen i chi ddod o hyd i, a darparu, enghreifftiau ffisegol o'r cynhyrchiad. Enghraifft ffisegol yw pan fyddwch yn disgrifio, yn hynod fanwl, beth sy'n digwydd ar y llwyfan ar y pryd. Chwiliwch am y manylion lleiaf, er enghraifft, esbonio sut mae Eleri yn sefyll neu'n symud, sut mae hi'n creu cymeriadau eraill, neu sut mae hi'n creu ffocws gyda'r aelodau o'r gynulleidfa sy'n cymryd rhan, beth sy'n digwydd o ran y dechnoleg, ble yn union maen nhw yn y gofod ac ati. Gorau po fwyaf o fanylion! Cymeriad/Rôl: Atebwch y cwestiynau hyn ar gyfer pob cymeriad yn y ddrama.

- 1 Pa ddefnydd oedd yr actor yn ei wneud o dechnegau drama (llais, corff, symudiadau a gofod) i greu eu cymeriadau?
 - **Meddyliwch ymhellach:** A wnaeth y cymeriad esblygu, neu aros yr un fath, a sut mae hyn yn cael ei gyfleu drwy eu defnydd o dechnegau?
- 2 Sut oedd yr actor yn creu effaith fel unigolyn ac yn eu perthynas ag eraill neu â'r gynulleidfa? Cysylltwch hyn â momentau penodol neu enghreifftiau yn y perfformiad.
- 3 Beth ddysgoch chi am y cymeriadau drwy'r ddeialog a ddefnyddiwyd yn y perfformiad?
 - **Meddyliwch ymhellach:** Beth rydyn ni'n ei ddysgu am fywydau a bydoedd y cymeriadau trwy ddeialog y cymeriadau? Meddyliwch am ryw foment penodol a defnyddio dyfyniadau uniongyrchol o'r testun.
- 4 Sut oedd yr actor wedi adeiladu **awyrgylch** yn eu perfformiad? Cysylltwch hyn â momentau penodol neu enghreifftiau yn y perfformiad.
 - **Meddyliwch ymhellach:** Beth oeddech chi wedi ei ddeall am ystyr ehangach y ddrama o'r modd roedd yr actor yn cyfleu'r cymeriadau yn y perfformiad?
 - Sut oedd y fideos wedi eich annog i feddwl am y syniadau mawr yn y perfformiad?

THEMÂU/SYNIADAU/ SYMBOLAU:

- 1 Beth oedd y prif themâu a'r prif syniadau oedd yn amlwg yn y sgript? Cysylltwch y themâu a'r syniadau hyn â momentau penodol neu enghreifftiau o'r perfformiad.
- 2 Pa themâu a syniadau mae pob un o'r cymeriadau'n eu cynrychioli, a sut mae hyn yn cael ei gyfathrebu drwy'r technegau actio a ddefnyddir?
- 3 Sut aeth y tîm cynllunio ati i ddefnyddio'r Elfennau Drama i adeiladu'r perfformiad? Sut oedd hyn yn gwneud i chi deimlo fel aelod o'r gynulleidfa?
 - **Meddyliwch ymhellach:** Sut oedd y tîm cynllunio'n creu **awrygylch**? Cysylltwch eich ateb â thechnolegau penodol neu fomentau yn y perfformiad.
 - Sut oedd y cyfarwyddwr neu'r tîm cynllunio wedi creu **ffocws**? Cysylltwch eich ateb â thechnolegau penodol neu fomentau o actio yn y perfformiad.
- 4 Nodwch y symbolau, motifau neu ddefnydd o dechnoleg sy'n ailgodi drwy gydol y perfformiad. Esboniwch eu pwysigrwydd i'r perfformiad neu'r naratif.
- 5 Sut mae'r themâu, y symbolau neu'r syniadau yn cysylltu â byd ehangach y ddrama, neu â chyd-destun ehangach Cymru, a pha effaith gaiff hyn ar y gynulleidfa?

CYSYNIAD/STRWYTHUR Y CYFARWYDDYDD/ CYNLLUNYDD:

- 1 Trafodwch sut roedd y perfformiad wedi cael ei strwythuro. Pam bod hyn yn effeithiol?
- 2 Sut oedd tensiwn yn cael ei greu drwy'r modd y cafodd y naratif ei strwythuro?
- 3 Trafodwch y tensiwn a grëwyd rhwng y technolegau a ddefnyddiwyd, actio Eleri a'r defnydd o gyfranogiad y gynulleidfa.
- 4 Sut roedd deialog yn cael ei defnyddio i yrru'r naratif neu stori'r ddrama?
 - **Meddyliwch ymhellach:** Trafodwch y gwrthgyferbyniad rhwng cyfranogiad y gynulleidfa, y defnydd o recordiadau, a'r modd mae'r cymeriad yn siarad gyda'r gynulleidfa.
 - Sut roedd traethiad yn cael ei ddefnyddio o fewn y perfformiad, a sut roedd hyn yn wahanol i'r cyfnodau lle roedd y cymeriadau'n siarad gyda'i gilydd?
- 5 Ym mha ffordd roedd strwythur y ddrama'n wahanol i naratif llinol arferol, a pham bod hyn yn bwysig? Pa effaith gafodd hyn arnoch chi fel aelod o'r gynulleidfa?
 - **Meddyliwch ymhellach:** Beth, yn eich barn chi, roedd Eleri a'r tîm yn ceisio'i ddweud drwy'r cyfuniad o gyfweliadau, y digwyddiad rhwng y bobl ifanc, a stori Eleri. Sut roedd hyn yn dod yn fyw ar y llwyfan? Beth, gredwch chi, oedd y brif neges?
- 6 Trafodwch sut y crëwyd effaith, a chysylltwch hyn naill ai â chysyniad y Cyfarwyddydd neu'r Cynllunydd. Cysylltwch eich syniadau â munudau penodol neu enghreifftiau o'r perfformiad.
- 7 Trafodwch bwrpas y perfformiad a'r modd y mae'n cysylltu â'r hyn sy'n digwydd yn y byd yn gymdeithasol, yn wleidyddol neu'n hanesyddol. Cysylltwch eich syniadau â munudau penodol neu enghreifftiau o'r perfformiad.

TECHNOLEG:

Cysylltwch eich syniadau â rhannau penodol neu enghreifftiau o'r perfformiad. Meddyliwch am y goleuo, set, sain, props, y gwisgoedd a'r colur, a sut roedd hyn yn helpu i'ch tyngu i mewn i fyd y ddrama.

- 1 Sut oedd technoleg yn cael ei ddefnyddio i greu effaith yn y perfformiad?
- 2 Sut oedd technoleg yn cael ei ddefnyddio i amlygu syniadau, themâu a symbolau pwysig yn y perfformiad?
- 3 Sut oedd awyrgylch yn cael ei greu neu ei adeiladu drwy gyfrwng technoleg, a pham oedd hyn yn bwysig?
- 4 Sut oedd y defnydd o dechnoleg yn eich helpu i gael gwell dealltwriaeth o fyd y ddrama?
- 5 Beth oedd pwrpas symbolaidd y cyfweiliadau wedi'u recordio oedd yn y perfformiad? Sut oedd hyn yn cysylltu â'r stori, neu'n ychwanegu at ei neges?

NODYN PWYSIG:

Pan fyddwch yn ysgrifennu am y Set neu'r Gwisgoedd, bydd angen i chi fod yn benodol ynghylch y manylion isod, a gwneud braslun o'r hyn welwch chi. Dychmygwch nad yw'r person rydych yn ysgrifennu ar ei gyfer wedi gweld y cynhyrchiad, a bod angen i chi greu delwedd glir yn eu meddwl o'r hyn welsoch chi:

- 1 Set/Props:
 - Maint, siâp a dimensiwn unrhyw ddarnau o'r set neu'r props a ddefnyddiwyd
 - Y deunyddiau a ddewiswyd, eu gwead a'u lliwiau
- 2 Gwisgoedd:
 - Y deunyddiau, y lliwiau a'r gweadau a ddefnyddiwyd i wneud y gwisgoedd
 - Y siapiau a grëwyd ac elfennau symbolaidd y wisg

IE IE IE, A'R CYSYLLTIADAU I'R CWRICWLWM IECHYD A LLES

CEIR FFOCWS HEFYD AR CWRICWLWM I GYMRU: Y COD ADDYSG CYD-BERTHYNAS A RHYWIOLDEB.

Iechyd a Lles, Cyd-berthynas a Rhywioldeb.

Mae Maes Iechyd a Lles mewn Dysgu a Phrofiad yn darparu strwythur holistaidd i ddeall maes iechyd a lles. Mae'n ymwneud â datblygu capasiti dysgwyr i lywio'u ffordd drwy gyfleoedd a heriau bywyd. Cydrannau sylfaenol y Maes hwn yw iechyd corfforol a datblygiad, iechyd meddwl, a lles emosiynol a chymdeithasol. Bydd yn cefnogi dysgwyr i ddeall a gwerthfawrogi sut mae gwahanol gydrannau iechyd a lles yn gyd-gysylltiedig, ac yn cydnabod bod iechyd da a lles yn bwysig i alluogi dysgu'n llwyddiannus. Ynghyd a maes iechyd a lles mi fydd y gweithgarwch hyn yn canolbwyntio ar faes Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Dylai fod gan bob person ifanc yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sy'n eu cadw'n ddiogel rhag niwed. Mae hyn yn cynnwys dysgu am berthnasoedd iach, cadw'n ddiogel, ar-lein ac all-lein, a bod yn hyderus i godi materion gydag oedolion cyfrifol. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi'i gynllunio i ddiogelu ein holl blant a phobl ifanc, gan eu cefnogi i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau a fydd yn helpu i'w hamddiffyn trwy gydol eu bywydau.

GWEITHGAREDD 1

Cydsynio, Perthnasau iach a chyfeillgarwch.

Mi fydd y weithgaredd isod yn canolbwyntio ar beth sydd yn dod i feddwl pobl ifanc wrth son am Cydsynio (consent), perthnasau iach a chyfeillgarwch.

Mi fydd angen torri mewn i 3 grwp a mi fydd angen darn o bapur ar bob un grwp. Fydd un darn o bapur yn nodi 'Cydsynio' y llall yn nodi 'Perthnasau iach' ar drydedd yn nodi 'Cyfeillgarwch'. Rhoi 5 muned yr un i bob grwp i nodi yn union beth sydd yn dod i'w meddyliau wrth feddwl am y geiriau yma. Y pethau positif a'r pethau negyddol. Wedi 5 muned fydd angen symud y papurau ogwmpas fel bod pob un grwp wedi cael cyfle i nodi meddyliau ar bob un teitl. Trafodaeth grwp yna ar y pynciau nodwyd a meddyliau'r pobl ifanc.

Ambell gwestiwn i helpu'r arweinydd i ennyn sgwrs

- 1 Cydsynio – gofyn ym mha sefyllfaoedd byddai pobl yn gofyn am ganiatad? Sut fydddech yn cyfathrebu cydsynio? Pa eirfa fydddech yn defnyddio?
- 2 Perthynas iach – Gofyn gyda phwy maent yn rhannu perthynas? Hynny yw nid oes rhaid i berthynas fod yn rhywbeth rhamantus. Perthynas gyda ffrindiau, rhieni, athrawon, gyrrwr y bus ayb. Ble maent wedi dysgu am berthnasau iach?
- 3 Cyfeillgarwch – Beth yw cyfeillgarwch i chi? Beth ydy rhinweddau cyfeillgarwch?

YR AIL WEITHGAREDD

Perthnasoedd

Beth yw rhinweddau iach chi'n edrych am o fewn perthynas? Boed hynny yn rhamantus neu fel ffrindiau? Dychmygwch fod person wedi ei wneud i fyny i 100%. Mae angen i chi nodi canran ger y pethau y bydddech chi'n hoffi cael fel rhinweddau yn eich ffrind / partner. Nid oes angen dewis pob un rhinwedd, a mae modd i'r canranau fod yn wahanol e.e Caredig 30%, Hael 20%, Deiniadol 15%, Teg 15% a Doniol 20%.

- 1 Parchu eraill
- 2 Ymddiriedadwy (Trustworthy)
- 3 Onest
- 4 Hael (Generous)
- 5 Caredig
- 6 Deniadol (Attractive)
- 7 Teg
- 8 Doniol
- 9 Cefnogol
- 10 Gwrando'n dda
- 11 Gofalu
- 12 Pethau yn gyffredin
- 13 Clyfar
- 14 Ddim yn dreisgar
- 15 Yn prynu pethau neis i mi
- 16 Siarad gyda fi
- 17 Gwisgo dillad neis
- 18 Fy nhrin yn gyfartal

Cyfle i'r arweinydd ennyn sgwrs yna ar ei dewisiadau. Posib fydd rhai wedi rhoi nifer o arian ger pethau megis caredig. Ond gallwn ofyn ni ddylai Caredig fod yn rhywbeth sydd yn dod yn ganiataol o fewn rhiwedd rhywun?... a ni ddylai rhywun deimlo fod nhw'n gorfod haeddu / talu am y pethau sylfaenol yna.